# Ysgolion yr 21ain Ganrif
# Dogfen Grynhoi 2021

## Ehangu ac ailddatblygu ysgol uwchradd cathays

**29 Ionawr – 19 Mawrth 2021**



Gellir darparu'r ddogfen hon mewn Braille.
Mae fersiwn llawn o'r ddogfen ymgynghori ar gael yn
www.caerdydd.gov.uk/cynigionysgoluwchraddcathays
Gellir darparu gwybodaeth mewn ieithoedd cymunedol eraill hefyd os bydd angen
Cysylltwch â ni ar 029 2087 2720 er mwyn trefnu hyn

## Cefndir

Yn 2017, fe nodon ni yr angen i gynyddu nifer y llefydd ysgol uwchradd fel rhan o Raglen Band B Ysgolion y 21ain Ganrif a'r angen i wella adeiladau ysgolion.

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys gwybodaeth gryno am gynigion i ddarparu mwy o leoedd ysgol yn Ysgol Uwchradd Cathays ac i gael adeiladau newydd yn lle adeiladau presennol Ysgol Uwchradd Cathays.

Dyma'ch cyfle i ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau. Rydym am wybod eich barn oherwydd mae hyn yn ein helpu i sicrhau bod unrhyw gynigion sy'n mynd yn eu blaenau yn gweithio'n iawn i blant, pobl ifanc a'r gymuned leol ar gyfer Ysgol Uwchradd Cathays.

## Beth rydyn ni'n cynnig ei wneud?

Rydym yn cynnig:

- Ehangu Ysgol Uwchradd Cathays o 1,072 o leoedd (5.5 Dosbarth Mynediad gyda 247 lle yn y chweched dosbarth) i 1,450 o leoedd (8 Dosbarth Mynediad gyda 250 lle yn y chweched dosbarth), o fis Medi 2023
- Codi adeiladau newydd i Ysgol Uwchradd Cathays yn lle'r hen rai ar safle Canolfan y Maendy ger Ffordd y Goron a Heol y Gogledd
- Cynyddu'r lleoedd yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) ar gyfer dysgwyr â Chyflwr Sbectrwm Awtistiaeth o 16 i 50 o leoedd
- Uwchraddio cyfleusterau cymunedol yn Cathays a Gabalfa drwy sicrhau bod cyfleusterau'r ysgol ar gael i'w defnyddio ar y cyd â'r gymuned leol ehangach
- Darparu lle i'r gymuned leol barhau i gael mynediad I fannau agored oddi ar y ffordd at ddefnydd hamdden anffurfiol

## Lle gallaf gael rhagor o wybodaeth?

- Mae'r manylion llawn i'w gweld yn y Ddogfen Ymgynghori ar **wefan y Cyngor.**

- Os na allwch weld y ddogfen ar-lein, bydd copïau printiedig o'r ddogfen ymgynghori hon ar gael drwy'r post ar gais. Gallwch ofyn am gopi drwy ffonio 029 2087 2720.

- Rydym wedi trefnu cyfarfodydd ar-lein y gallwch fynd iddynt os hoffech i ni esbonio'r newidiadau arfaethedig i chi. Gallwch hefyd holi cwestiynau. Os hoffech fynychu cyfarfod ar-lein cysylltwch â ni drwy e-bost: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk gan ddweud pa gyfarfod yr hoffech ei fynychu. Byddwn wedyn yn darparu dolen a chyfarwyddiadau ar gyfer mynychu'r cyfarfod.

Mae dyddiadau'r cyfarfodydd ymgynghori wedi eu nodi isod:

**Tabl 1: Dyddiadau Cyfarfodydd Ymgynghori**

| **Natur yr Ymgynghoriad** | **Dyddiad/Amser** |
|---|---|
| Cyfarfod cyhoeddus ar-lein | Dydd Mercher 24 Chwefror 2021 5:30pm – 7pm |
| Cyfarfod cyhoeddus ar-lein | Dydd Llun 01 Mawrth 2021 2pm – 3:30pm |

Trefnwyd cyfarfodydd ar wahân ar gyfer staff a llywodraethwyr a gellir dod o hyd i fanylion y rhain yn y ddogfen ymgynghori are **wefan y Cyngor**.

## Sut allaf roi fy marn?

- Gallwch fynychu un o'r cyfarfodydd
- Gallwch roi eich barn ar wefan y Cyngor.
- Gallwch lenwi'r ffurflen ymateb ar dudalennau 9 a 10 y llyfryn hwn.

## Pam ein bod yn cynnig y newidiadau hyn?

**Llefydd ysgol** - Rhaid i bob cyngor yng Nghymru gynnig digon o lefydd ysgol i ddisgyblion o bob oed. Rhaid i lefydd ysgol ateb anghenion yr holl ddisgyblion a rhaid iddynt fod yn addas ar gyfer unrhyw anghenion dysgu ychwanegol.

**Cyflwr ac Addasrwydd** - Rhaid i gyfleusterau ysgol fod yn addas i'r diben. Rhaid i ysgolion gefnogi cyflwyno dysgu o ansawdd uchel.

## Beth yw Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif?

Mae Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn rhaglen fuddsoddi fawr a hirdymor. Mae'n cael ei ariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol. Ei nod yw creu cenhedlaeth o ysgolion yr 21ain ganrif yng Nghymru.

Cynhaliwyd rhan gyntaf y Rhaglen (Band A) tan fis Mawrth 2019.

Dechreuodd ail ran y cyllid hwn (Band B) ym mis Ebrill 2019. Fel rhan o hyn, mae Cyngor Caerdydd yn cynllunio rhaglen fuddsoddi o tua £284 miliwn.

## Pam mae angen mwy o leoedd?

### Llefydd Ysgol Uwchradd Cymunedol

Dros y pum mlynedd diwethaf, mae nifer y disgyblion sydd yn mynd i ysgolion uwchradd (Blwyddyn 7) yng Nghaerdydd wedi cynyddu.

Mae amcanestyniadau'n awgrymu:

- bydd nifer y disgyblion sy'n dechrau ym Mlwyddyn 7 mewn ysgolion cymunedol Saesneg yn parhau i godi, a
- bydd mwy o ddisgyblion na nifer y lleoedd sydd ar gael ar hyn o bryd tan o leiaf fis Medi 2023

Erbyn mis Medi 2024 mae'n bosib y bydd cwymp yn y galw cyffredinol am lefydd gan ddisgyblion yn byw yn y tai presennol. Fodd bynnag, mae sawl safle tai newydd wedi

eu cynllunio ar hyd a lled y ddinas. O ganlyniad, disgwyliwn y bydd yn dal i fod fwy o ddisgyblion na'r nifer o lefydd sydd ar gael ar hyn o bryd yn ein hysgolion wedi 2024.

Mae'r ardaloedd sydd â'r diffyg mwyaf a ragwelir mewn lleoedd yn ardal ganolog y ddinas. Lleolir Ysgol Uwchradd Cathays yn ganolog yng Nghaerdydd. Felly, mae mewn sefyllfa dda i fynd â phlant o'r dalgylchoedd cyfagos yn ogystal â'i dalgylchoedd ei hun.

## Cyflwr Sbectrwm Awtistig (CSA)

Cynigir lleoedd i ddisgyblion â Chyflwr Sbectrwm Awtistiaeth mewn ysgolion prif ffrwd fel lleoliadau â chymorth, mewn Canolfannau Adnoddau Arbenigol neu ysgolion arbennig. Nid oes angen lle ysgol arbennig ar y rhan fwyaf o blant â CSA er mwyn dysgu a ffynnu.

Ceir Canolfannau Adnoddau Arbenigol mewn nifer o ysgolion uwchradd ac ysgolion cynradd yng Nghaerdydd.

Mae llawer o bobl ifanc yn mynychu ysgol brif ffrwd leol yn llwyddiannus ac mae ganddynt gymorth arbenigol ychwanegol a ddarperir gan Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn yr ysgol honno.

Disgwylir y bydd y galw am leoedd yn parhau i dyfu dros y 5-10 mlynedd nesaf. Mae hyn oherwydd poblogaeth sy'n tyfu a diagnosis gwell o Gyflwr Sbectrwm Awtistiaeth.

## Pam ehangu ac adnewyddu Ysgol Uwchradd Cathays?

Mae rhagfynegiadau'r Cyngor yn awgrymu y byddai ail-godi Ysgol Uwchradd Cathays â 240 o lefydd i bob grŵp blwyddyn yn rhoi digon o le i wasanaethu dalgylch presennol Ysgol Uwchradd Cathays. Mae'r data presennol yn dangos y byddai gan ysgol uwchradd sydd â thri dosbarth mynediad (90 lle fesul grŵp blwyddyn) ddigon o leoedd ar gyfer dalgylch presennol Ysgol Uwchradd Cathays.

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddatblygiadau preswyl mawr wedi'u cynllunio gerllaw nac o fewn dalgylch Ysgol Uwchradd Cathays. Fodd bynnag, mae datblygiadau tai wedi'u cynllunio yn ne'r ddinas. Bydd hyn yn cynyddu nifer y disgyblion mewn dalgylchoedd ysgolion cyfagos yn sylweddol.

Mae Ysgol Uwchradd Cathays mewn sefyllfa dda i ateb y galw gormodol am leoedd o ddalgylchoedd eraill. Byddai ehangu Ysgol Uwchradd Cathays yn cynyddu lleoedd i wasanaethu ardaloedd canolog Caerdydd.

Byddai Ysgol Uwchradd Cathays newydd gyda 240 o leoedd ym mhob grŵp blwyddyn yn

- creu trefniadaeth ddosbarth effeithlon
- cynnig digon o gapasiti ar gyfer plant lleol sydd am le mewn ysgol uwchradd gymunedol Saesneg, a
- cyfrannu rhai llefydd ychwanegol i ateb y galw a ragamcennir ar gyfer yr ardal ehangach

## Canolfan Adnoddau Arbenigol (CAA)

Mae'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol ar gyfer disgyblion â Chyflwr Sbectrwm Awtistiaeth (CSA) sydd wedi'i lleoli yn Ysgol Uwchradd Cathays yn cefnogi hyd at 16 o ddisgyblion 11-18 oed. Cynigir cadw'r Ganolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) yn Ysgol Uwchradd Cathays fel rhan o'r ysgol yn y dyfodol.

Byddai nifer y lleoedd hefyd yn cynyddu o 16 i 50 o leoedd. Byddai hyn yn sicrhau darpariaeth barhaus ar gyfer disgyblion presennol a rhai'r dyfodol.

## Darpariaeth Ôl 16

Fel rhan o'r gwaith o ehangu Ysgol Uwchradd Cathays, cynigir cynyddu'r ddarpariaeth Ôl-16 (y chweched dosbarth) o 247 i 250 o leoedd. Mae hyn yn gyson â chyfran gyfartalog y dysgwyr sy'n parhau i'r ddarpariaeth chweched dosbarth mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ledled y ddinas.

Bydd hyn yn galluogi disgyblion i gael mynediad at gwricwlwm ehangach, gan gynnig mwy o gyfleoedd i bob dysgwr. Bydd y cyfleusterau gwell yn caniatáu i'r ysgol gynnig cwricwlwm pwrpasol, gan weithio gyda diwydiannau, colegau a darparwyr dysgu seiliedig ar waith. Byddai dysgu academaidd a galwedigaethol ar gael i ddisgyblion.

## Cyfleusterau Cymunedol


Byddai adeilad newydd yr ysgol yn dal i fod yn agos i Ganolfan y Maendy Ar hyn o bryd, mae Canolfan y Maendy yn cynnwys y ganolfan hamdden a'r pwll dan do, Trac Beicio a BMX y Maendy, a chaeau pêldroed awyr agored.

Mae trac beicio'r Maendy wedi bod yn gartref i Glwb Beicio Maindy Flyers ers 1995. Mae gan y clwb tua 200 o aelodau rhwng 5 a 18 oed. Mae Canolfan Diogelwch ar y Ffyrdd Caerdydd, sy'n darparu hyfforddiant beicio i oedolion a phlant, hefyd wedi'i lleoli ar safle Maendy.

Mae'r clwb beicio wedi tyfu'n rhy fawr i faint y cyfleuster ac mae angen buddsoddi yn y trac. Mae'r bwriad i ailddatblygu Ysgol Uwchradd Cathays yn rhoi cyfle i gael cyfleuster trac newydd. Mae cyfleuster trac newydd yng nghanol Bae Caerdydd yn y Pentref Chwaraeon Rhyngwladol i gael ei gyflwyno'n gynharach a hynny'n gynnar yn 2021.

Byddai cyfleusterau cymunedol gwell wedi'u lleoli ar safle newydd Ysgol Uwchradd Cathays. Byddai'r cyfleusterau ar gael i bawb eu defnyddio. Gyda'i gilydd byddai hyn yn creu canolbwynt ar gyfer chwaraeon a fyddai hefyd o fudd i'r gymuned.

## Map o'r Safle




## Cyflwr ac Addasrwydd

Mae cyflwr adeiladau yr holl eiddo ysgolion yng Nghaerdydd wedi eu hasesu. Maent wedi derbyn sgôr o A i D, gyda'r ysgolion â sgôr o D yn y cyflwr salaf. Mae'r broses hon yn ein cynorthwyo i flaenoriaethu pa ysgolion sydd angen gwella eu hadeiladau ac angen buddsoddi ynddynt.

Mae Ysgol Uwchradd Cathays yn cael ei graddio fel categori "C" o ran ei chyflwr. Mae hyn yn golygu bod yr adeiladau mewn cyflwr gwael gyda diffygion mawr. Mae cyflwr gwael yr adeiladau yn ei gwneud yn anodd i staff gyflawni'r cwricwlwm. Mae adeiladau'r ysgol wedi eu sgorio'n C (Gwael) o ran eu haddasrwydd ar gyfer addysgu a dysgu. Mae llawer o'r adeiladau yn Cathays yn adeiladau symudol.

Mae manylion pellach am y sgorio i'w cael yn y ddogfen ymgynghori ar [wefan y Cyngor](#).

## Ansawdd a Safonau

Mae pob ysgol yng Nghymru yn cael ei archwilio gan Estyn.

Mae Estyn yn sicrhau fod ysgolion yn cynnig safon dda o addysg i'w disgyblion a bod pob plentyn yn derbyn cymorth i ddysgu gan staff addysgu a dysgu rhagorol.

Mae ysgolion hefyd yn cael eu gosod i un o bedwar categori cymorth lliw (gwyrdd, melyn, oren a choch) fel rhan o System Gategoreiddio Ysgolion Cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Ysgolion Oren a Choch yw'r rhai sydd angen y cymorth mwyaf.

Amlinellir manylion y safonau yn Ysgol Uwchradd Cathays fel y'u nodir yn adroddiad Estyn yr ysgol yn Tabl 2 isod:

| Ysgol | Dyddiad yr Arolwg | Safonau | Rhagolygon ar gyfer Gwella |
|---|---|---|---|
| Ysgol Uwchradd Cathays | Chwe 2013 | Da | Da |

Yn y Categoreiddio Ysgolion diweddaraf gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2020, categoreiddiwyd Ysgol Uwchradd Cathays yn Wyrdd.

Golyga hyn fod Ysgol Uwchradd Cathays:

- yn ysgol sy'n cael ei rhedeg yn dda gydag arweinyddiaeth gref
- yn glir ynghylch blaenoriaethau ar gyfer gwella
- yn meddu ar hanes o godi safonau
- yn meddu ar y gallu I gefnogi ysgolion eraill

Ceir rhagor o fanylion am ansawdd a safonau yn y ddogfen ymgynghori yn ar **wefan y Cyngor**.

## Sut yr effeithir ar gymorth i ddisgyblion?

Byddai'r ysgol yn parhau i gynnig cymorth sy'n briodol i anghenion pob disgybl yn unigol.

Nid oes unrhyw wybodaeth i awgrymu y ceid effaith negyddol ar anghenion unrhyw un o'r grwpiau isod gan y newidiadau arfaethedig:

- disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol
- disgyblion y mae Saesneg yn Iaith Ychwanegol ganddynt
- disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim
- Disgyblion o Leiafrifoedd Ethnig

## Manteision y cynnig

- cynnydd yn nifer y llefydd ysgol uwchradd Saesneg i ateb y galw a ragamcennir
- byddai'r cynnig yn cynyddu nifer y lleoedd CAA ar gyfer dysgwyr 11 - 19 oed sydd â Chyflwr Sbectrwm Awtistig.
- byddai adeiladau ysgol gwael yn cael eu gwaredu

- Mae ysgolion newydd yn darparu cyfleusterau o ansawdd uchel, sy'n gwella dewisiadau dysgu a chyfleoedd i ddisgyblion. Mae gweledigaeth Caerdydd 2030 yn nodi'r angen i ddarparu lleoedd ysgol o ansawdd uchel. Mae amgylcheddau dysgu o ansawdd uchel yn cael effaith gref ar wella deilliannau disgyblion
- Byddai'r adeilad newydd yn gwbl hygyrch ac yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010
- byddai gwell cyfleusterau chwaraeon awyr agored yn darparu gwell cyfleoedd at ddefnydd disgyblion a'r gymuned.

## Anfanteision posibl y cynnig

- mae potensial ar gyfer mwy o dagfeydd traffig o amgylch safle'r ysgol ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Fodd bynnag, byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Chorff Llywodraethu'r ysgol i ddatblygu Cynllun Teithio i leihau unrhyw darfu posibl

- Gall rhai disgyblion ag ADY ei chael hi'n anodd newid. Efallai y byddai symud i adeilad newydd ar safle newydd yn peri anniddigrwydd. Gwyddom y bydd angen cymorth wedi'i gynllunio'n ofalus arnynt i addasu i'r lleoliad newydd. Fodd bynnag, byddai digon o amser i gynllunio a chefnogi cyfnod pontio o'r fath

## Risgiau sydd ynghlwm â'r cynnig

- mae perygl na fydd y cynnydd a ragwelir yn nifer y disgyblion yn digwydd. Fodd bynnag, ar sail nifer y disgyblion yn ysgolion cynradd Caerdydd a maint y datblygiadau mawr sydd ar y gweill mewn rhannau o Gaerdydd nid yw hyn yn ymddangos yn debygol; Bydd y Cyngor yn parhau i adolygu ei amcanestyniadau a byddai'n ymateb i unrhyw newidiadau o'r fath yn y galw os bydd angen
- Efallai y ceir cyfyngiadau datblygu nad sydd yn hysbys eto. Pe bai unrhyw rai yn dod i'r amlwg, gallai costau fod yn uwch a/neu beri oedi. Byddai arolygon safle ac adroddiadau geo-technegol yn cael eu cwblhau er mwyn cynnig mwy o wybodaeth
- Efallai na fydd y cynnig yn bosibl os nad yw'r bid ar gyfer cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru yn llwyddiannus
- Pe na byddai'r cyngor yn cael y cyllid angenrheidiol gan Lywodraeth Cymru yna'r Cyngor fyddai'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb yn llawn dros yr holl gostau yn ymwneud â'r cynnig. Yn yr achos, hwn byddai gofyn adolygu'r dewisiadau

## Beth fyddai'r effaith ar staff?

Mae'r Cyngor wedi gweithio gyda Phenaethiaid, llywodraethwyr, undebau ac eraill i greu fframwaith Adnoddau Dynol Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion a gaiff ei defnyddio pan fydd ysgolion yn cael eu had-drefnu. Fel rhan o hyn mae'r Cyngor yn cynnig cyngor uniongyrchol, cymorth ac arweiniad i'r Cyrff Llywodraethu ac aelodau staff ym mhob ysgol a effeithir gydol y broses.

Mae cynnydd arfaethedig yn nifer y disgyblion yn Ysgol Uwchradd Cathays. Byddai hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Gorff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Cathays ystyried eu gofynion staffio i fodloni'r cynnydd hwn.

Os bydd unrhyw swyddi gwag yn codi, dylid ystyried y rhain fel cyfleoedd adleoli i staff ar gofrestr adleoli'r ysgol. Yn ogystal, byddai angen ymgynghori'n llawn â staff a

chydweithwyr mewn undebau llafur er mwyn sicrhau bod y gwaith o drosglwyddo i adeilad newydd yr ysgol yn digwydd yn esmwyth.

Byddai angen i'r Corff Llywodraethu a thîm arwain yr ysgol hefyd ystyried a oes angen unrhyw newidiadau staffio i gefnogi'r defnydd o safle'r ysgol gan y gymuned ehangach. Bydd Gwasanaethau Pobl Adnoddau Dynol yn darparu cyngor a chymorth yn ôl yr angen.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y Cyngor yn casglu ac yn crynhoi'r adborth a ddaw o'r ymgynghoriad hwn. Yna bydd swyddogion y Cyngor yn adrodd hyn wrth Gabinet y Cyngor. Bydd hyn yn helpu'r aelodau etholedig i ddeall barn rhanddeiliaid a bydd yn rhoi gwybodaeth iddynt er mwyn eu helpu i wneud eu penderfyniad.

Os yw'r Cabinet yn penderfynu parhau â'r newidiadau, rhaid iddo gyhoeddi dogfen o'r enw 'hysbysiad statudol'. Mae'r hysbysiad statudol yn nodi manylion y cynigion ac yn gofyn i unrhyw un sydd am wrthwynebu i wneud hynny. Rhaid i wrthwynebiadau fod yn ysgrifenedig. Rhaid eu hanfon i'r Cyngor o fewn y dyddiadau a nodir ar yr hysbysiad.

Gallai'r Cabinet benderfynu derbyn neu wrthod y cynnig, neu gallent gymeradwyo'r cynnig gyda rhai newidiadau (amrywiadau). Byddai'r Cabinet yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau fyddai'n dod i law yn y Cyfnod Gwrthwynebu wrth wneud ei benderfyniad.

Unwaith y gwneir penderfyniad, byddwn yn hysbysu pawb sy'n cael eu heffeithio gan y cynnig. Caiff y penderfyniad eu gyhoeddi hefyd ar wefan y Cyngor.

## Pe cytunwyd ar y cynigion, pryd fyddai'r adeiladau ysgol newydd yn agor?

Y bwriad yw y byddai gwaith adeiladu yn dechrau ym mlwyddyn ysgol 2023/24 ac yn cael ei gwblhau yn barod i ddisgyblion ddefnyddio'r holl gyfleusterau newydd ym mlwyddyn ysgol 2025/26.

## DWEUD EICH DWEUD!

Rydym yn cynnig:

- Ehangu Ysgol Uwchradd Cathays o 1,072 o leoedd (5.5 Dosbarth Mynediad gyda 247 lle yn y chweched dosbarth) i 1,450 o leoedd (8 Dosbarth Mynediad gyda 250 lle yn y chweched dosbarth);
- Codi adeiladau newydd i Ysgol Uwchradd Cathays yn lle'r hen rai ar safle Canolfan y Maendy ger Ffordd y Goron a Heol y Gogledd;
- Cynyddu'r lleoedd Canolfan Adnoddau Arbenigol (CAA) ar gyfer dysgwyr â Chyflwr Sbectrwm Awtistiaeth o 16 i 50 o leoedd;
- Uwchraddio cyfleusterau cymunedol yn Cathays a Gabalfa drwy sicrhau bod cyfleusterau ysgol llawer gwell ar gael i'w rhannu â'r gymuned leol ehangach;
- Parhau i gynnig lle i'r gymuned leol gael mynediad i fannau agored oddi ar y ffordd at ddefnydd hamdden anffurfiol.

**A ydych chi'n ymateb fel (ticiwch bob un sy'n berthnasol):**
Rhiant neu Warcheidwad*____ Mam-gu/Tad-cu*____ Disgybl*____
Aelod o staff*____ Llywodraethwr*____ Preswylydd Lleol____
Arall (rhowch fanylion)____________________________________

*A fyddech cystal â chadarnhau pa ysgol(ion) rydych yn gysylltiedig â hi/nhw?
_____________________________________________________________________

**A ydych yn cefnogi'r cynnig i gynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Uwchradd Cathays o 1,072 i 1,450?**

**Ydw_____** **Nac ydw_____** **Dim barn_____**

**Esboniwch pam:**

**A ydych yn cefnogi'r cynnig i drosglwyddo Ysgol Uwchradd Cathays i adeilad newydd, gyda chyfleusterau cymunedol wedi'u huwchraddio?**

**Ydw_____** **Nac ydw_____** **Dim barn_____**

**Esboniwch pam:**

**A ydych yn cytuno y dylai nifer y lleoedd yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Uwchradd Cathays gynyddu o 16 lle i 50 o leoedd?**

**Ydw_____** **Nac ydw_____** **Dim barn_____**

**Esboniwch pam:**

**A oes unrhyw opsiynau eraill yr hoffech eu hawgrymu?**

**A oes unrhyw sylwadau eraill gennych?**

Enw ...........................................................................................................................

Cyfeiriad ...........................................................................Cod post................

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw **19 Mawrth 2021**.

Ni fydd y Cyngor yn gallu ystyried unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad a gafwyd ar ôl y dyddiad hwn.

Ni fydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn cyfrif fel gwrthwynebiadau i'r cynnig.

Ni ellir ond cofrestru gwrthwynebiadau wedi cyhoeddi hysbysiad statudol.

Os hoffech chi gael gwybod pan gyhoeddir adroddiad yr Ymgynghoriad, nodwch eich cyfeiriad e-bost. Os na roddwch gyfeiriad e-bost i ni, ni fydd modd i ni gysylltu â chi.

Diolch ichi am eich sylwadau

Dychwelwch y ffurflen hon i'r Tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion, Ystafell 401, Neuadd y Sir, CF10 4UW fan pellaf erbyn 19 Mawrth 2021.

Caiff y wybodaeth rydych wedi'i rhoi ei phrosesu gan Gyngor Caerdydd yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Caiff y wybodaeth rydych wedi'i rhoi i ni mewn perthynas â'r ymgynghoriad hwn ei thrin yn gyfrinachol ond gallai gael ei defnyddio gan y Cyngor neu'i datgelu i eraill yn ôl y gyfraith. Mae angen prosesu data personol er mwyn cyflawni tasgau penodol er budd y cyhoedd. Gydag unrhyw ymatebion a ddaw i law, bydd modd gwneud cais amdanynt o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac mae'n bosibl y bydd yn rhaid eu gwneud yn gyhoeddus. Wedi dweud hynny, ni fyddai gwybodaeth sy'n cynnwys manylion fel enw a chyfeiriad unigolyn yn cael ei defnyddio. Am ragor o wybodaeth ynghylch sut mae Cyngor Caerdydd yn rheoli gwybodaeth bersonol, gweler ein Polisi Preifatrwydd llawn ar wefan y Cyngor https://www. cardiff.gov.uk/CYM/Hafan/Ymwadiad/Pages/default.aspx